

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 4ydd o Fedi 2019 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Dinas Mawddwy.

Presennol; Cynghorwyr Iwan Foulkes , Berwyn Hughes, Hedd Pugh, Arfon Hughes, Idris Jones, Geraint Morgans, John P Jones, a Huw T Jones (Clerc)

Roedd ymddiheuriadau i law gan Cyng. Berwyn Harding a Catrin Jones

Mynegodd y Cadeirydd ein cydymdeimlad dwysaf a'r Cynghorydd Hedd Pugh a'r teulu ehangach yn eu profedigaeth lem o golli Elain Heledd.

1. Cofnodion y cyfarfod diwethaf:

Cadarnhawyd gofnodion cyfarfod o'r 26ain o Fehefin fel rhai cywir ar gynnig Idris Jones a'i eilio gan Berwyn Hughes.

Aethpwyd ymlaen at gofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar y 31 o Orffennaf, a nodwyd e-bost i law gan Cyng. Berwyn Hughes ychydig cyn y cyfarfod yn nodi ychwanegiad lle roedd son am ddangos diddordeb, sef ei fod wedi holi am gyngor a'i fod wedi ei annog i adael y cyfarfod. Gyda'r ychwanegiad yma, cadarnhawyd eu cywirdeb ar gynnig Hedd Pugh a'i eilio gan Idris Jones.

2. Materion yn codi .

- a) **Ymgynghoriad ar ddyfodol y Rheithordy a'r gerddi yn Mallwyd** – adroddodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at yr Eglwys, ac nad oedd datblygiad pellach. Roedd sylwadau oedd i law yn dilyn ymweliad a'r Eglwys a'r Rheithordy yn ystod yr haf wedi eu danfon ymlaen i'r Parch Miriam Beecroft.
- b) Adroddodd y Clerc y diweddaraf gyda'r **ddwy sedd wag ar y Cyngor**, sef bod ail-hysbyseb wedi ei gosod yn nodi y bwriad i gyfethol, ac yn gwahodd enwebiadau. Roedd rhain wedi bod ar hysbysfyrdau Mallwyd, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy hyd at yr 17eg o Orffennaf. Roedd mynegiant diddordeb gan Robin Hughes, Dugoed Mawr, Mallwyd ar gyfer sedd Dinas Mawddwy, a Sion Alun Roberts ar gyfer sedd Llanymawddwy. Ar gynnig Hedd Pugh a'i eilio gan John P Jones, penderfynwyd yn ffurfiol i'w cyfethol i'r Cyngor.
- c) **Coed ar Dolybont** – roedd nodyn i law gan Adran Briffordd Cyngor Gwynedd yn dweud eu bod yn monitro'r sefyllfa.
- d) **Tyllau yn Lawnt y Plas**, adroddwyd fod gwaith wedi ei wneud ers y cyfarfod diwethaf.
- e) **Coed ac iddew yn tyfu ym mynwent Mallwyd**, gan gynnwys oddiamgylch rhai o'r cerrig beddi – adroddwyd fod y gwaith wedi ei gwblhau gan Tegid Humphreys, a chyfeiriwyd at waith trwyadl a thaclus.
- f) **Ffens derfyn rhwng mynwent Llanymawddwy a thir ochr ucha'r fynwent**, Adroddodd y Cyng Hedd Pugh fod y mater mewn llaw.
- g) Darllenwyd ymateb pellach gan Merfyn Wyn Morris o **Adran Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru** ynglyn a'r materion a ddanfonwyd atynt, yn arbennig y ceblau o hen sustem teledu y Dinas, oedd yn dal yn destun pryder.
- h) **Meddygfa Glantwymyn** – adroddwyd fod yr adeilad bellach wedi ei werthu.
- i) **Canlwm Siapan** – adroddodd y Clerc am ymateb gan Rhys Owen o Barc Cenedlaethol Eryri a oeddyn dweud ei fod yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o gael 'drone' i wneud arolwg o'r defyllfa.
- j) **Redbull** – adroddwyd y byddai'r digwyddiad ar benwythnos y 15fed o Fedi.

- k) **Ffordd Deunant** – adroddwyd nad oedd neb o'r Adran Briffyrdd wedi bod allan yn marcio, a bod angen atgoffa eto.
- l) **Cyfarfodydd cyswllt blynyddol rhwng Cyngorau Cymuned a'r Parc Cenedlaethol**, - cytunoddd y Cadeirydd, yr Is Gadeirydd a'r Clerc i fynychu yn Plas Tan y Bwlch, Maentwrog ar Nos Fawrth 1af Hydref, neu Neuadd Dyfi, Aberdyfi ar Nos Iau y 3ydd Hydref.

Yn dilyn cais am wybodaeth gan y Cyng. Arfon Hughes, cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod arbennig y 31ain o Orffennaf wedi eu danfon i bawb o'r Cyngor Cymuned yn gyfrinachol. Nodwyd nad oedd unrhyw faterion yn codi. Os byddai unrhyw faterion yn codi, yna byddai hyn yn fater i'r Cynghorwyr oedd yn bresennol yn y cyfarfod arbennig, a byddai rhaid gwneud unrhyw gyfarfod pellach ar y mater yn un caeedig ar gyfer unrhyw drafodaeth.

3. Materion Cynllunio.

Roedd un cais cynllunio wedi ei ddsbarthu ar e-bost ers y cyfarfod diwethaf, sef newid tir amaethyddol i gwrtil preswyl yn Insfree Ty Hebron Aberangell. Ni chafwyd unrhyw sylwadau. Cafwyd datganiad diddordeb gan y Cadeirydd y Cyng. Iwan Foulkes pan drafodwyd hyn.

4. Materion Cyllid.

Cytunwyd i dalu anfoneb Tegid Humphreys am £350, ynghyd a'r yswiriant o £50. (Cyfanswm £50) Roedd hyn ar gyfer clirio coed ac iddew ym mynwent Mallwyd a mynd a nhw o'r safle.

Roedd ail ran y praesept i law, sef £4,410.

Nodwyd siec flynyddol i law gan Manweb PLC am £97.42, sef tal am y polion ar gomin Dolybont.

5. Gohebiaeth.

- a) Cyfeiriwyd wybodaeth llawn oedd i law gan Wales Rally GB am y rali oedd ymlaen ar y 5ed o Hydref. Dosbarthwyd y llythyr i'r cynghorywr a oedd yn dangos y map a'r holl fanylion.
- b) Nodwyd gylchlythyr i law gan Eluned Morgan AC.

6. Unrhyw Fater arall.

a) Derbyniwyd cais yn gofyn a fyddai modd symud yr arwydd cyflymder 40 wrth ddod i Dinas ar yr A470 (ochr Cerist) fel bod defnyddwyr y ffordd yn arafu cyn dod i'r fynedfa i Dinas. Hefyd roedd angen edrych ar leoliad yr arwydd o gyfeiriad Mallwyd, a bod y mater yma wedi ei godi yn y gorffennol.

b) Adroddwyd fod taflen am oriau agor meddygfa Machynlleth yn dangos ei bod ar agor am hanner yr wythnos, er bod y wefan yn dweud yn wahanol. Roedd felly bryder am y gwasanaeth. Roedd angen cael eglurhad, a addawodd y Cyng. Geraint Morgans eu ffonio bore canlynol, a gadael i'r Clerc wybod y sefyllfa cyn gweithredu ar y mater.

- c) Mynegwyd pryder am arwydd 'chapel for sale' o dan arwyddion cyhoeddus yn yr ardal, sef yn y Dinas, Mallwyd ac yn Cerist. Hefyd, roedd arwydd 'Ty Derw' wedi disgyn ar safle ger y Buckley Pines.
- d) Roedd pryder mawr am or-dyfiant coed ar yr hen ffordd ger Penbont, ac hefyd ar yr A458 o'r Tyrpeg at Groes-Lwyd.
- e) Mynegwyd pryder mawr am nifer y ffesantod ar y gefnffordd A458 o Fallwyd i derfyn y Sir.
- f) Mynegwyd pryder am y trafferth i gael apwyntiad ym meddygfa Dolgellau, a bod angen ysgrifennu at y Cyngor Iechyd Cymuned.
- g) Nodwyd bryder fod yna giat 'hurdle' dros y giat fynedfa i'r hen fynwent yn y Dinas, a oedd yn gwneud yn anodd i rhywun ymweld a'r safle.
- h) Cyfeiriwyd at y llain o dir o dan y fynwent yn y Dinas, sef o dan y darn newydd a wnaethpwyd yno. Roedd angen symud y ffens, a'i rhoi lle mae'r rael fel bod defaid yn pori ar y llain yma o dir.
- i) Adroddwyd fod coed ochr ffordd ar rhiw Landrin eisiau eu torri, ac hefyd ar y llwybr sy'n arwain o'r toiledau i'r Plas. Addawodd y Cyng. Arfon Hughes fod hyn mewn llaw gan Gwmni Nod Glas.
- j) Roedd biniau sbwriel a biniau baw cwn yn orlawn yn y Plas, ac angen cael eu gwagu yn fwy aml. Roedd hyn yn arbennig o wir dros fisoedd yr haf.
- k) Roedd angen glanhau ochr ffyrdd a gwteri ar yr A470.
- l) Roedd pryder yn parhau am 'camper vans' yn parcio yn y Plas dros nos. Gwelwyd fod angen danfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am arwyddion addas.
- m) Roedd hysbysfwrdd gwybodaeth yn Mallwyd wedi torri, ac angen sylw.
- n) Mynegwyd siom fod lladron wedi torri mewn i eiddo yn yr ardal yn ddiweddar.

DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NOS FERCHER 16eg Hydref yn Neuadd Dinas Mawddwy am 7.30 O'R GLOCH.